



## Ysgol Pentreuchaf

### 121. Polisi Partneriaeth gyda'r Ysgol Addysg

#### Nod

Creu cyswllt broffesiynol fydd o fudd i Ysgol Pentreuchaf ac i'r Ysgol Addysg, gan sicrhau tegwch o'r ddwy ochr.

#### Canllawiau

1. Bydd pob athrawes yn gweithredu fel Mentor ar wahanol adegau. Y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth fydd yn gweithredu fel Uwch Fentoriaid.
2. Cyfrifoldeb y Mentor fydd sicrhau bod y myfyrwyr yn derbyn y wybodaeth berthnasol am
  1. Yr ysgol yn gyffredinol a'i gweinyddiad – enwau'r pennaeth a'r athrawes gyda phwynt cyfrifoldeb.
  2. Nifer y staff a nifer y plant.
  3. Athrawon a dosbarthiadau.
  4. Adnoddau
  5. Cynlluniau Gwaith
  6. Polisiau
  7. Cynlluniau Tymhorol
3. Cyfrifoldeb y Mentoriaid fydd datblygu'r myfyrwyr ym mhob modd posibl. Byddant yn gyfrifol am drafod y canlynol
  1. Cyflwyno gwybodaeth am y dosbarth – niferoedd ac enwau'r plant, cynllun, trefniant, offer ac adnoddau yn y dosbarth, cyfrifiaduron, trefniant y cwricwlwm a.y.y.b.
  2. Amserlen arferol y dosbarth.
  3. Amserlen yn nodi'r cyfnodau y mae'r myfyrwyr yn gyfrifol amdanynt.
  4. Trafod thema neu bwyslais cyfnod yr ymarfer dysgu – dangos cynlluniau tymor canolig fydd yn sail i'r cynllunio wythnosol.
  5. Cydweld ar gynllunio'r myfyriwr o ran rhaglenni astudio, gweithgareddau, trefniadaeth dosbarth, sgiliau ac adnoddau.
4. Rhaid cofio rhoi blaenoriaeth ar gyfer dysgu disgyblion gan wneud yn siwr bod gweithdrefnau i sicrhau ansawdd – os bydd Mentor yn bryderus ynglŷn â safonau myfyriwr neu safonau gwaith plant o dan ei gofal, rhaid cysylltu'n union gydag Uwch Fentor neu'r pennaeth.
5. Dylid bob amser gydnabod isafswm hawliau myfyrwyr ac ymrwymiad yr ysgol gyfan i'r bartneriaeth gyda'r Ysgol Addysg.
6. Mae angen darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac ymchwil parhaol y myfyrwyr. I'r perwyl hwn byddwn yn eu gwahodd i gyfarfodydd staff, nosweithiau rieni a.y.y.b. fel bo hyn yn ymarferol.
7. Unwaith y flwyddyn yn unig y bydd pob dosbarth yn derbyn myfyriwr ar y mwyaf, ond bydd yn rhaid trafod pob cais yn unigol oherwydd digwyddiadau megis absenoldebau mamolaeth, cyfnodau asesu B2 a B6 a.y.y.b.

#### Casgliad

Trwy ddilyn y canllawiau uchod, sicrhau system effeithiol o'r ddwy ochr i hyrwyddo addysg y plant a'r myfyrwyr.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_